

Diogelu Oedolion 2018-19

Cefndir

Dylai data gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru'n flynyddol, gan adlewyrchu holl ddata'r flwyddyn ariannol berthnasol.

Nodiadau Cyfarwyddyd i'w cwblhau a'u cyflwyno

Dylai'r ffurflen Diogelu Oedolion 2018-19 gael ei defnyddio i gofnodi data cyfanredol ar weithgarwch diogelu oedolion yn ystod y cyfnod rhwng **01/04/18** a **31/03/19**.

Gofynion data

Cyffredinol

Mae'r diffiniad o oedolyn yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf) fel a ganlyn:

- ystyr "oedolyn" yw person sy'n 18 oed neu drosodd

Mae'r diffiniad o ofal a chymorth yn y Ddeddf fel a ganlyn:

- gofal;
- cymorth;
- gofal a chymorth.

Mae "oedolyn sy'n wynebu risg" yn cael ei ddiffinio yn y Ddeddf fel oedolyn—

- sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso,
- y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio), ac
- nad yw'n gallu, o ganlyniad i'r anghenion hynny, amddiffyn ei hun rhag cael, neu'r risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Mae'r diffiniad hwn o oedolyn sy'n wynebu risg yn berthnasol mewn perthynas â'r dyletswyddau a'r pwerau statudol o dan Ran 7 o'r Ddeddf ac, at y dibenion hynny, mae'n disodli'r diffiniad o 'oedolyn agored i niwed' yn *Mewn Dwylo Diogel*.

Mae'r diffiniad o gamdriniaeth ac esgeulustod yn y Ddeddf fel a ganlyn:

- ystyr "camdriniaeth" a "cham-drin" yw camdriniaeth gorfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol (ac mae'n cynnwys camdriniaeth sy'n digwydd mewn unrhyw leoliad, p'un ai

mewn annedd breifat, mewn sefydliad neu mewn unrhyw fan arall), ac mae “camdriniaeth ariannol” yn cynnwys y canlynol—

- bod arian neu eiddo arall person yn cael ei ddwyn;
 - bod person yn cael ei dwyllo;
 - bod person yn cael ei roi o dan bwysau mewn perthynas ag arian neu eiddo arall;
 - bod arian neu eiddo arall person yn cael ei gamddefnyddio;
- ystyr “esgeulustod” yw methiant i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol person, sy’n debygol o arwain at amharu ar lesiant y person (er enghraifft, amharu ar iechyd y person neu, yn achos plentyn, amharu ar ddatblygiad y plentyn).

Mae’r [Canllawiau Statudol mewn perthynas â Rhan 7 \(Diogelu\) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 \(Gweithio Gyda’n Gilydd i Ddiogelu Pobl\)](#).

Oedolion y credir eu bod yn wynebu risg

O dan Adran 128 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae’n ofynnol i awdurdodau lleol a’u partneriaid perthnasol adrodd i’r awdurdod lleol priodol os credant fod oedolyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso. Amlinellir ystyr partner perthnasol o dan adran 162(4) o’r Ddeddf.

Efallai y bydd yr awdurdod lleol yn derbyn adroddiadau hefyd gan unigolion, gan gynnwys pobl sy’n derbyn gofal a chymorth, teulu, ffrindiau, eiriolwyr a sefydliadau megis y rhai o’r trydydd sector.

1. Nifer yr oedolion y credir eu bod yn wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso a adroddwyd yn ystod y flwyddyn

Cofnodwch nifer yr oedolion y credir eu bod yn wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso a adroddwyd i’r awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn.

Os adroddwyd oedolyn i’r awdurdod lleol fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn, dim ond unwaith y dylai’r oedolyn hwnnw gael ei gyfrif.

2. Nifer yr oedolion a adroddwyd fwy nag unwaith ar gyfer yr un categori o gamdriniaeth neu esgeulustod yn ystod y flwyddyn

Cofnodwch nifer yr oedolion a adroddwyd i’r awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn a adroddwyd fwy nag unwaith ar gyfer yr un categori o gamdriniaeth neu esgeulustod.

Gall oedolyn gael ei gyfrif o dan eitem data 2 ac eitem data 3 (isod).

3. Nifer yr oedolion a adroddwyd ar gyfer gwahanol gategoriâu o gamdriniaeth neu esgeulustod yn ystod y flwyddyn

Cofnodwch nifer yr oedolion a adroddwyd i’r awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn a adroddwyd ar gyfer gwahanol gategoriâu o gamdriniaeth neu esgeulustod.

Dim ond unwaith y dylid cyfrif oedolyn, waeth faint o weithiau y cafodd ei adrodd ar gyfer gwahanol gategoriâu o gamdriniaeth ac esgeulustod.

Gall oedolyn gael ei gyfrif o dan eitem data 2 (uchod) ac eitem data 3.

Adroddiadau a dderbyniwyd

4. Nifer yr adroddiadau am oedolyn y credir ei fod yn wynebu risg a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn

Cofnodwch nifer yr adroddiadau lle credwyd bod oedolyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso a dderbyniwyd gan yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn.

Cofnodwch bob adroddiad a dderbyniwyd gan yr awdurdod lleol, beth bynnag fo'u tarddiad.

Dylai pob adroddiad sôn am un oedolyn yn unig; fodd bynnag, gall oedolyn gael ei adrodd fwy nag unwaith. Os derbyniwyd mwy nag un adroddiad ar gyfer yr un oedolyn yn ystod y flwyddyn, dylai pob un o'r adroddiadau hyn gael eu cofnodi ar wahân.

4.1 Nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn a arweiniodd at ymholiad

Ar gyfer yr adroddiadau hynny a dderbyniwyd gan yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn, cofnodwch faint a arweiniodd at ymholiad.

Dylech gynnwys pob adroddiad a arweiniodd at ymholiad, waeth a gafodd yr ymholiadau eu gwneud gan yr awdurdod lleol ei hun neu gan gorff arall ar ei ran.

Ni fydd pob adroddiad yn arwain at ymholiad. Os bydd awdurdod lleol yn derbyn adroddiad ond nad yw'n ymwneud ag unrhyw faterion diogelu, a bod yr awdurdod lleol wedi penderfynu nad oes unrhyw achos rhesymol dros gredu bod oedolyn yn wynebu risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso, ni fyddai'r adroddiad yn arwain at ymholiad.

4.2 Categori o gamdriniaeth neu esgeulustod

Cofnodwch bob math o gamdriniaeth neu esgeulustod yr honnir ei fod wedi digwydd ym mhob adroddiad, gan gofnodi mwy nag un math o gamdriniaeth os yw'n berthnasol i'r adroddiad, fesul oed a rhyw.

Dyma'r categorïau: camdriniaeth gorfforol, camdriniaeth rywiol, camdriniaeth emosiynol/seicolegol, camdriniaeth ariannol ac esgeulustod.

Gall person gael ei adrodd ar gyfer mwy nag un categori o gamdriniaeth a/neu esgeulustod. Mae'n bwysig i bob categori sy'n berthnasol gael eu cofnodi.

Dylai camdriniaeth gael ei chyfrif o dan y prif fath o gamdriniaeth berthnasol: corfforol, rhywiol, emosiynol/seicolegol neu ariannol neu esgeulustod. Gall person gael ei nodi yn y cyfanswm hefyd o dan y ddau categori sy'n dilyn y prif ddadansoddiad.

Ystyr camdriniaeth hiliol yw camdriniaeth a ysgogir gan elyniaeth neu gasineb tuag at hil neu gredoau crefyddol (gwirioneddol neu ymddangosiadol) y dioddefwr.

Ystyr camdriniaeth ddomestig yw camdriniaeth lle mae'r dioddefwr yn gysylltiedig neu wedi bod yn gysylltiedig â'r camdriniwr.

Grwpiau oed: 18-64, 65 a throsodd.

Dylai pobl cael eu grwpio yn seiliedig ar eu hoedran ar ddiwedd y cyfnod adrodd (h.y. ar 31 Mawrth).

4.3 Ethnigrwydd

Cofnodwch ethnigrwydd yr oedolyn y credir ei fod yn wynebu risg.

Dyma'r categorïau ethnigrwydd: Gwyn; grŵp ethnig cymysg; Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig; Du, Affricanaidd, Caribiaidd neu Ddu Brydeinig; grŵp ethnig arall; gwybodaeth heb ei chael; gwybodaeth wedi'i gwrthod.

Dim ond un ethnigrwydd y dylid ei gofnodi ar gyfer pob adroddiad.

Dylid cynnwys Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig o dan 'Gwyn'.

Dylid cynnwys Tsieineaidd neu Tsieineaidd Prydeinig o dan 'Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig'.

Dylid cynnwys Arab o dan 'Grŵp ethnig arall'.

4.4 Tarddiad yr adroddiad

Cofnodwch tarddiad yr adroddiad i'r awdurdod lleol.

Dyma'r categorïau: hunanadroddiad; perthynas / ffrind; awdurdod lleol; yr heddlu; bwrdd iechyd lleol; ysbyty annibynnol; gwasanaeth ambiwlans; rheoleiddiwr gofal; asiantaeth darparu; gwasanaeth prawf; y trydydd sector; eiriolwr; arall.

Dim ond un tarddiad y dylid ei gofnodi ar gyfer pob adroddiad.

Awdurdod lleol – unrhyw adran awdurdod lleol

Bwrdd iechyd lleol – yn cynnwys iechyd sylfaenol, iechyd cymunedol ac ysbyty'r GIG

Rheoleiddiwr gofal – AGGCC neu AGIC

Asiantaeth darparu – asiantaeth sy'n darparu gwasanaeth ar ran yr awdurdod lleol

Gwasanaeth prawf – Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol

Eiriolwr – yn cynnwys Eiriolwr Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol (IMCA)

Enghraifft:

Mae preswlydd mewn cartref gofal preswyl annibynnol yn datgelu lladrad i berthynas. Mae'r perthynas yn hysbysu rheolwr y cartref gofal, sy'n cysylltu â'r awdurdod lleol. Tarddiad yr adroddiad yw'r person sy'n gwneud y cyswllt cyntaf â'r awdurdod lleol h.y. rheolwr y cartref gofal. Yn yr enghraifft hon, 'asiantaeth darparu' fyddai tarddiad yr adroddiad.

Ymholiadau

Os oes gan awdurdod lleol achos rhesymol dros gredu bod person yn ei ardal (waeth a yw fel arfer yn byw yno ai peidio) yn oedolyn sy'n wynebu risg, rhaid iddo wneud *pa bynnag ymholiadau y cred sy'n angenrheidiol* (neu achosi i ymholiadau o'r fath gael eu gwneud) i'w alluogi i benderfynu a yw'r oedolyn yn wynebu risg a pha gamau y dylid eu cymryd a chan bwy.

Yn gyffredinol, dylai ymholiadau gael eu gwneud mewn tri cham:

- I. Sgrinio: i wirio cywirdeb ffeithiol cyffredinol unrhyw adroddiad
- II. Gwerthusiad cychwynnol: Bydd hyn yn golygu casglu, adolygu a chrynhai gwybodaeth.
- III. Penderfyniad: O ystyried canlyniad y sgrinio/gwerthusiad cychwynnol, beth ddylid ei wneud, os rhywbeth? Gall hyn gynnwys ysgogi ymchwiliad gan un asiantaeth neu ymchwiliad amlasiantaethol.

Gall yr awdurdod lleol gynnal yr ymholiadau ei hun, neu achosi iddynt gael eu cynnal gan gorff arall. Mae'r ddyletswydd i bennu natur yr ymholiadau gofynnol yn aros gyda'r awdurdod lleol, hyd yn oed os mai corff arall sy'n cynnal yr ymholiadau. Efallai y gofynnir i bartneriaid perthnasol wneud ymholiadau ar ran yr awdurdod lleol, ac mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â cheisiadau o'r fath oni bai y byddai gwneud hynny yn mynd yn groes i'w dyletswyddau eu hunain.

Dylai casgliad ymholiad gynnwys a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg a pha gamau y dylid eu cymryd a chan bwy. Os bydd ymholiad yn dod i'r casgliad bod angen cymryd camau, bydd y camau'n cael eu cofnodi mewn cynllun amddiffyn oedolion sy'n rhan o gynllun gofal a chymorth (os nad oes gan yr oedolyn gynllun gofal a chymorth yn barod, ac nad oes ganddo unrhyw anghenion gofal a chymorth, efallai mai dim ond cynllun amddiffyn oedolion fydd gan yr oedolyn). Gall oedolyn wrthod cymryd rhan yn y camau hynny a nodir.

5. Nifer yr ymholiadau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i'r casgliad bod angen cymryd camau

Cofnodwch nifer yr ymholiadau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i'r casgliad bod oedolyn yn wynebu risg a bod angen cymryd camau.

Dylai casgliad ymholiad gynnwys a yw'r person yn oedolyn sy'n wynebu risg ai peidio a pha gamau y dylid eu cymryd a chan bwy. Bydd y camau'n cael eu cofnodi mewn cynllun gofal a chymorth (a/neu gynllun amddiffyn oedolion).

5.1 Lle mae'r gamdriniaeth neu'r esgeulustod honedig wedi digwydd

Ar gyfer yr ymholiadau hynny a ddaeth i'r casgliad bod yr oedolyn yn wynebu risg a bod angen cymryd camau, cofnodwch bob un o'r llefydd mae'r gamdriniaeth neu'r esgeulustod honedig wedi digwydd.

Dyma'r categorïau: yn eich cartref eich hun; yn y gymuned; cartref gofal; lleoliad iechyd.

Gall mwy nag un lleoliad gael eu cofnodi ar gyfer pob ymholiad.

Yn y gymuned – yn cynnwys cartref perthynas, cartref y camdriniwr honedig

Cartref gofal – yn cynnwys cartref preswyl, nyrsio neu seibiant, cartref Grŵp Ymddiriedolaeth y GIG

Lleoliad iechyd – yn cynnwys ysbyty'r GIG, ysbyty annibynnol

Enghreifftiau:

Tenantiaeth gyffredin – cofnodwch fel yn eich cartref eich hun

Eiddo wedi'i forgeisio i'r dioddefwr honedig neu ei bartner - cofnodwch fel yn eich cartref eich hun

Person hŷn yn byw yng nghartref ei ferch – cofnodwch fel yn y gymuned ehangach

Person hŷn yn byw yn ei gartref ei hun a'i ferch yn symud i mewn i helpu i ofalu amdano - cofnodwch fel yn eich cartref eich hun

Coleg addysg bellach, coleg cymunedol ar gyfer dosbarthiadau nos, person 19 oed yn byw mewn ysgol breswyl – cofnodwch fel yn y gymuned

Cyfleuster gwely a brecwast neu westy – cofnodwch fel yn y gymuned.

5.2 Y person yr honnir ei fod yn gyfrifol am gamdriniaeth neu esgeulustod

Ar gyfer yr ymholiadau hynny a ddaeth i'r casgliad bod yr oedolyn yn wynebu risg a bod angen cymryd camau, cofnodwch y cysylltiad rhwng pob un o'r camdrinwyr honedig a'r oedolyn sy'n wynebu risg.

Dyma'r categorïau: gweithiwr cyflogedig; gwirfoddolwr / gweithiwr nad yw'n cael ei dalu; perthynas / ffrind; defnyddiwr gwasanaethau arall; arall.

Os oedd adroddiad yn cynnwys mwy nag un camdriniwr, cofnodwch bob un o'r rhain ar wahân.

Enghreifftiau:

Gweithiwr cyflogedig – staff y GIG (yn cynnwys staff ysbyty a staff cymunedol e.e. nyrs gymunedol, prif nyrs ward, porthor ysbyty a derbynnydd clinig), staff sector gwirfoddol neu annibynnol (yn cynnwys sefydliadau elusennol, darparwyr gofal preifat a staff mewn ysbytai annibynnol), staff awdurdod lleol (gall gynnwys staff gwasanaethau cymdeithasol e.e. gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr contract neu staff cyfarwyddiaeth e.e. warden cyfadeilad neu staff canolfan hamdden), gweithiwr taliad uniongyrchol neu ILF (person sy'n cael ei gyflogi'n uniongyrchol gan y defnyddiwr gwasanaethau neu ei deulu. Nid yw'r person hwn yn cael ei gomisiynu trwy gontract gan ALI neu'r GIG i ddarparu gwasanaeth).

Gwirfoddolwr / gweithiwr nad yw'n cael ei dalu – yn cynnwys eiriolwyr.

Arall – yn cynnwys plant o dan 18 oed.

5.3 Nifer yr oedolion a wrthododd gymryd rhan yn y camau a nodwyd

Cofnodwch nifer yr oedolion sy'n wynebu risg a wrthododd gymryd rhan mewn camau a nodwyd gan ymholiad.

Ymchwiliadau

6. Nifer yr ymchwiliadau troseddol

Os bydd adroddiad neu ymholiad ynghylch oedolyn y credir ei fod yn wynebu risg yn awgrymu efallai bod trosedd wedi'i chyflawni, rhaid hysbysu'r heddlu cyn gynted â phosibl. Ystyr ymchwiliad troseddol yw ymchwiliad sy'n cynnwys yr heddlu a lle mae'r heddlu'n gyfrifol am gymryd unrhyw gamau. Mae ymchwiliad yn cael ei gynnal gan swyddogion yr heddlu gyda'r nod o bennu a ddylai person gael ei gyhuddo o drosedd, neu a yw person sydd wedi'i gyhuddo o drosedd yn euog o gyflawni'r drosedd honno. Byddai ymchwiliad gan yr heddlu yn cael blaenoriaeth dros unrhyw ymchwiliad arall.

Os bydd mater troseddol yn dod i'r amlwg yn ystod ymchwiliad nad yw'n ymchwiliad troseddol, dylai'r ymchwiliad hwnnw ddod i ben yn syth.

Cofnodwch nifer yr ymchwiliadau troseddol a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn.

7. Nifer yr ymchwiliadau nad ydynt yn ymchwiliadau troseddol

Os bydd adroddiad neu ymholiad ynghylch oedolyn y credir ei fod yn wynebu risg yn awgrymu efallai bod trosedd wedi'i chyflawni, dylai ymchwiliad ddechrau'n syth.

Cofnodwch nifer yr ymchwiliadau a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn.

Casgliad data gan Lywodraeth Cymru.

[Canllawiau cyffredinol ar sut i llenwi'r ffurflen](#)

Dewiswch eich iaith penodol / Choose your preferred language

Welsh / Cymraeg

GWYBODAETH AM Y DARPARWR

Dewiswch eich awdurdod o'r rhestr a ddarparwyd

Dewiswch



Cofnodwch enw'r prif swyddog cyswilt mewn perthynas â'r ffurflen hon

Cofnodwch rif ffôn y swyddog cyswilt

Cofnodwch gyfeiriad e-bost y swyddog cyswilt



[Clicio fan hyn i ddechrau cwblhau'r ffurflen](#)

DILYSU

Dolennau ffurflen	Wedi ei gwblhau
Lleoliad	0%
Cysylltiadau	0%
Arolwg	0%
Oedolion	67%
Adroddiadau	68%
Ymholiadau	67%
Ymchwiliadau	67%

Ar ôl ei llenwi, anfonwch y daenlen at Lywodraeth Cymru drwy'r system Afon erbyn 26 Mai 2019



<https://www.afonwales.org.uk/>

Diogelu Oedolion 2018-19

Canllawiau cyffredinol ar sut i lenwi'r ffurflen

[Hafan](#)
[Arolwg](#)

LLYWIO

Gallwch symud o un daflen i'r llall drwy glicio ar y ddolen berthnasol

Er enghraifft, cliciwch ar y ddolen i fynd i Crynodeb

Er enghraifft, cliciwch ar y ddolen Hafan i fynd yn ôl i'r dudalen hafan

EITEMAU DATA GOFYNNOL

Pan fyddwch yn derbyn y daenlen, bydd y celloedd sydd angen eitemau data fel a ganlyn:

Bydd pob cell sydd angen data yn las golau



Mae rhai celloedd yn derbyn gwerthoedd o eitemau data eraill. Mae'r celloedd hyn yn llwyd. Nid oes modd i chi gofnodi data yn y celloedd hyn.



Os nad oes modd i chi ddarparu unrhyw eitem ddata, gadewch y gell YN WAG. Peidiwch nodi unrhyw eiriau (Amherthnasol neu Heb eu casglu ac ati) yn unrhyw gell heblaw am y celloedd sylwadau. Byddwn yn cymryd yn ganiataol fod sero mewn unrhyw gell yn dynodi'r rhif sero am yr eitem ddata hon.

Mae blwch melyn wedi ei ddarparu ym mhob tabl ar gyfer sylwadau. Os oes eitemau data ar goll, rhaid ychwanegu sylw ar y daenlen.



DILYSU

Mae cam cyntaf y broses ddilysu yn chwilio am wallau sylfaenol. Mae'r rhain wedi'u nodi yng ngholofn D1 ar y daenlen. Rhaid dileu'r gwallau hyn cyn cyflwyno'r daenlen.

Bydd eitemau data sy'n torri rheol ddilysu yn goch.



Bydd eitemau data sydd ar goll neu gamgymeriadau dilysu gyda sylwadau yn oren.



Bydd eitemau data dilys yn wyrdd tywyll.



Dilysiad 2

Mae ail gam y broses ddilysu yn cymharu gwybodaeth a gyflwynwyd ar gyfer y flwyddyn flaenorol a chadw llygad am newidiadau mawr. Bydd yn tynnu sylw at eitemau data sydd wedi newid mwy na swm penodol rhwng blynyddoedd. Mae'r eitemau hyn wedi'u nodi yng ngholofn D2 ar y daenlen.

Mae angen i eitemau data sydd wedi newid mwy na 10% / 20% gynnwys esboniad am y newid. Mae'n rhaid i'r esboniadau gynnwys rhesymau am y newid ac nid dangos bod newid wedi digwydd neu gadarnhau y newid yn unig



Bydd eitemau data dilys yn wyrdd



Baich ymateb i'r arolwg

[Hafan](#)

[Oedolion](#)

Mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r baich ar awdurdodau lleol sy'n cwblhau'r ffurflenni data. Mae hyn yn ein helpu ni i gynllunio newidiadau yn y dyfodol i ffurflenni casglu data. Fe fyddem yn gwerthfawrogi eich cymorth drwy gwblhau'r tabl isod.

Cofnodwch faint o amser a gymerwyd i chi (ac unrhyw gydweithwyr) baratoi ac anfon y ffurflen. Efallai bod nifer o staff sydd wedi'u cyflogi mewn swyddi gwahanol wedi cymryd rhan. Rydym yn gofyn i chi gyfrif yr oriau a dreuliwyd gan staff ar bob band cyflog blyneddol cyfwerth ag amser llawn a nodir isod. Fe fydd angen talgrynnu cyflogau staff i'r £1,000 agosaf.

Dylid cynnwys amser a dreuliwyd ar weithgareddau yn ymwneud â pharatoi ac anfon y ffurflen hon yn unig, megis:

- Adalw a chadw'r ffurflen wag;
- Casglu, coladu, dadansoddi ac agregu cofnodion ffigurau gofynnol;
- Llenwi, gwirio, diwygio, adolygu ac, ar ôl ei gwblhau, cymeradwyo'r ffurflen;
- Anfon y ffurflen yn ôl i Lywodraeth Cymru.

Gradd y staff		Oriau a gymerwyd	Sylw
		a	b
1	Band 1 £11,500 - £19,999		
2	Band 2 £20,000 - £26,999		
3	Band 3 £27,000 - £33,999		
4	Band 4 £34,000 - £53,999		
5	Band 5 £54,000+		

Diogelu Oedolion 2018-19

Oedolion y credir eu bod yn wynebu risg

Dewiswch

[Adroddiadau](#)

[Hafan](#)

D2: Defnyddiwch y bocsys sylwadau i esbonio unrhyw gynnyddiau neu ostyngiadau uwchlaw 20%, neu wahaniaeth o 30 rhwng eitemau data, wrth gymharu data 2018-19 gyda data 2017-18.

	Cyfanswm	D1	Sylwad	2017-18	D2	Sylwad
1	Nifer yr oedolion y credir eu bod yn wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso a adroddwyd yn ystod y flwyddyn					
2	Nifer yr oedolion a adroddwyd fwy nag unwaith ar gyfer yr un categori o gamdriniaeth neu esgeulustod yn ystod y flwyddyn					
3	Nifer yr oedolion a adroddwyd ar gyfer gwahanol gategoriâu o gamdriniaeth neu esgeulustod yn ystod y flwyddyn					

Mae angen laniwytho/dilysu/cyflwyno'r ffurflen ar [Afon](#) erbyn 24 Mai 2019 Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y cynnwys- Ffoniwch: 0300 025 1274 E-bost: ystadegau.gwascymdeithasol@llyw.cymru

Diogelu Oedolion 2018-19
Adroddiadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn

Dewiswch
[Ymholiadau](#)
[Hafan](#)

D2: Defnyddiwyd y bocsys sylwadau i esbonio unrhyw gynnyddiad neu ostyngiad uwchlaw 20%, neu wahaniaeth o 30 rhwng eitemau data, wrth gymharu data 2018-19 gyda data 2017-18.

		Cyfanswm	D1	2017-18	D2	Sylwad
4	Nifer yr adroddiadau am oedolyn y credir ei fod yn wynebu risg a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn		✖		✓	
4.1	Nifer yr adroddiadau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn a arweiniodd at ymholiad		✖		✓	

4.2 - Categori o gamdriniaeth neu esgeulustod

	Rhyw	2017-18								Sylwad
		18-64	D1	65 oed a throsodd	D1	18-64	D2	65 oed a throsodd	D2	
Corfforol	Gwryw		✖		✖		✓		✓	
	Benyw		✖		✖		✓		✓	
Rhywiol	Gwryw		✖		✖		✓		✓	
	Benyw		✖		✖		✓		✓	
Emosiynol/Seicolegol	Gwryw		✖		✖		✓		✓	
	Benyw		✖		✖		✓		✓	
Ariannol	Gwryw		✖		✖		✓		✓	
	Benyw		✖		✖		✓		✓	
Esgeulustod	Gwryw		✖		✖		✓		✓	
	Benyw		✖		✖		✓		✓	
Cyfanswm	Gwryw		✖		✖		✓		✓	
	Benyw		✖		✖		✓		✓	
	Cyfanswm		✖		✖		✓		✓	
			✓							

O'r rhain

Hillol	Gwryw		✖		✖		✓		✓	
	Benyw		✖		✖		✓		✓	
Domestig	Gwryw		✖		✖		✓		✓	
	Benyw		✖		✖		✓		✓	

4.3 - Ethnigrwydd

	Cyfanswm	D1	Sylwad	2017-18		
				Cyfanswm	D2	Sylwad
Gwyn		✖			✓	
Grŵp ethnig cymysg		✖			✓	
Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig		✖			✓	
Du, Affricanaidd, Caribiaidd neu Ddu Prydeinig		✖			✓	
Grŵp Ethnig Arall		✖			✓	
Gwybodaeth heb ei chael		✖			✓	
Gwybodaeth wedi'i gwrthod		✖			✓	
Cyfanswm		✖			✓	

4.4 - Tarddiad yr adroddiad

	Cyfanswm	D1	Sylwad	2017-18		
				Cyfanswm	D2	Sylwad
Hunanadroddiad		✖			✓	
Perthynas / Ffrind		✖			✓	
Awdurdod lleol		✖			✓	
Heddlu		✖			✓	
Bwrdd Iechyd Lleol		✖			✓	
Ysbyty annibynnol		✖			✓	
Gwasanaeth ambiwlans		✖			✓	
Rheoleiddwr gofal		✖			✓	
Asiantaeth ddarparu		✖			✓	
Gwasanaeth Prawf		✖			✓	
Y trydydd sector		✖			✓	
Eiriolwr		✖			✓	
Arall		✖			✓	
Cyfanswm		✖			✓	

Diogelu Oedolion 2018-19
Ymholiadau a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn

Dewiswch
[Ymchwiliadau](#)
[Hafan](#)

D2: Defnyddiwch y bocsys sylwadau i esbonio unrhyw gynnyddiau neu ostyngiadau uwchlaw 20%, neu wahaniaeth o 30 rhwng eitemau data, wrth gymharu data 2018-19 gyda data 2017-18.

				2017-18			
		Cyfanswm	D1	Sylwad	Cyfanswm	D2	Sylwad
5	Nifer yr ymholiadau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i'r casgliad bod angen cymryd camau		✗			✓	

5.1 - Lle mae'r gamdriniaeth neu'r esgeulustod honedig wedi digwydd

				2017-18		
	Cyfanswm	D1	Sylwad	Cyfanswm	D2	Sylwad
Eu cartref eu hunain		✖			✓	
Yn y gymuned		✖			✓	
Cartref gofal		✖			✓	
Lleoliad iechyd		✖			✓	
Cyfanswm		✖			✓	

5.2 - Y person yr honnir ei fod yn gyfrifol am gamdriniaeth neu esgeulustod

2017-18							
	Cyfanswm	D1	Sylwad		Cyfanswm	D2	Sylwad
Gweithiwr cyflogedig		✖				✓	
Perthynas / Ffrind		✖				✓	
Gwirfoddolwr / Gweithiwr nad yw'n cael ei dalu;		✖				✓	
Defnyddiwr gwasanaeth arall		✖				✓	
Arall		✖				✓	
Cyfanswm		✖				✓	

				2017-18			
		Cyfanswm	D1	Sylwad	Cyfanswm	D2	Sylwad
5.3	Nifer yr oedolion a wrthododd gymryd rhan mewn camau a nodwyd gan ymholiad.		✖			✓	

Diogelu Oedolion 2018-19
Ymchwiliadau

Dewiswch
[Hafan](#)

D2: Defnyddiwch y bocsys sylwadau i esbonio unrhyw gynnyddiau neu ostyngiadau uwchlaw 10%, neu wahaniaeth o 30 rhwng eitemau data, wrth gymharu data 2018-19 gyda data 2017-18.

				2017-18			
		Cyfanswm	D1	D1 Sylwad	Cyfanswm	D2	D2 Sylwad
6	Nifer yr ymchwiliadau troseddol a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn		✖			✓	
7	Nifer yr ymchwiliadau nad ydynt yn ymchwiliadau troseddol a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn		✖			✓	
Cyfanswm yr ymchwiliadau			✖			✓	

Mae angen laniwytho/dilysu/cyflwyno'r ffurflen ar [Afon](#) erbyn 24 Mai 2019 Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y cynnwys- Ffoniwch: 0300 025 1274 E-bost: ystadegau.gwascymdeithasol@llyw.cymru